

Adroddiad i'r: Cabinet

Dyddiad y cyfarfod 15 Chwefror 2022

Aelod Arweiniol / Swyddog Y Cyng Brian Jones (Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd), y Cyng Tony Thomas (Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau), y Cyng Julian Thompson Hill (Aelod Arweiniol Eiddo a Chyllid) / Alan Smith (Pennaeth y Gwasanaeth Gwella Busnes a Moderneiddio ac Uwch Berchennog Cyfrifol y Rhaglen Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol), Steve Gadd (Pennaeth Cyllid ac Asedau)

Awdur yr Adroddiad Andrew Cutts (Rheolwr y Rhaglen Newid Hinsawdd)

Teitl Cynllun penderfyniadau dirprwyedig arfaethedig ar gyfer caffael tir (rhydd-ddaliadol a lesddaliadol) i ddibenion dal a storio carbon a gwelliannau ecolegol

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â chyflwyno cynllun newydd o benderfyniadau dirprwyedig ar gyfer caffael tir (rhydd-ddaliadol a lesddaliadol) i ddibenion dal a storio carbon a gwelliannau ecolegol fel y gellir caffael tir yn fwy cyflym ac effeithiol, yn arbennig mewn sefyllfa o arwerthiant, fel bod y Cyngor yn cyflawni ei ddatganiad Argyfwng Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol a'r targedau dilynol o fewn ei Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol (2021/22 – 2029/30).

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae angen penderfyniad ynghylch a ddylid cyflwyno cynllun penderfyniadau dirprwyedig newydd yn unol â'r cynnig neu beidio.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Cabinet yn cymeradwyo cyflwyno'r cynllun newydd o benderfyniadau dirprwyedig ar gyfer caffael tir (rhydd-ddaliadol a lesddaliadol) i ddibenion dal a storio carbon a gwelliannau ecolegol fel y cynigir yn Atodiad 1.

- 3.2 Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 2) fel rhan o'i ystyriaethau.

4. Manylion yr adroddiad

- 4.1 Gweler Atodiad 3 am fanylion ar dargedau Di-garbon Net ac Ecolegol Gadarnhaol y Cyngor erbyn 2030 a'r rhesymeg dros gaffael i ddibenion dal a storio carbon a gwelliannau ecolegol.
- 4.2 Gweler Atodiad 4 am fanylion ar ymagwedd bresennol y Cyngor o ran caffael (rhydd-ddaliadol a lesddaliadol) i ddibenion dal a storio carbon a gwelliannau ecolegol a sut fyddai hynny o dan ei gynllun arfaethedig o benderfyniadau dirprwyedig

4.1 Y cynllun arfaethedig o benderfyniadau dirprwyedig

- 4.1.1 Mae risg a nodwyd (gweler Atodiad 6) mewn cyflawni ein targedau dal a storio carbon yn llwyddiannus yn ymwneud â chaffael tir a ddaw ar y farchnad agored yn llwyddiannus, yn aml mewn amgylchedd arwerthiant, gyda therfynau amser byr rhwng yr hysbysebu a'r cynigion terfynol. Cadarnhawyd hyn fel problem ym Medi 2021 pan roedd 2 safle ar gael i'w prynu drwy arwerthiant a fyddai wedi sgorio'n uchel gan ddefnyddio'r matrices asesu tir (Atodiad 5) ond na chawsant eu dilyn gan na lwyddwyd i gwblhau'r cynllun presennol o benderfyniadau dirprwyedig yn yr amser oedd ar gael rhwng yr hysbyseb a'r arwerthiant.
- 4.1.2 Er mwyn sicrhau safleoedd mewn dull cyflym ac effeithiol cynigir fod cynllun newydd o benderfyniadau dirprwyedig yn cael ei roi mewn grym ar gyfer caffael safleoedd penodol i ddibenion dal a storio carbon a gwelliannau ecolegol. Byddai hyn yn cynnwys yr agweddau ariannol o dan awdurdod y Grŵp Buddsoddi Strategol ac agweddau yn ymwneud â defnydd tir o dan awdurdod y Grŵp Rheoli Asedau fel yr amlinellir yng Nghyfansoddiad y Cyngor.
- 4.1.3 Caiff y cynllun newydd arfaethedig o benderfyniadau dirprwyedig ei ddarparu'n llawn yn Atodiad 1 a cheir disgrifiad isod.

Ar gyfer achosion o gaffael hyd at £1m mewn gwerth a gyda chostau o fewn y gyllideb y cytunwyd arni gan Fwrdd y Gyllideb ar gyfer Ffrwd Waith Defnydd Tir y Rhaglen Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol cynigir:

fod y Grŵp Buddsoddi Strategol yn dirprwyo'r penderfyniad dros wario'r cyfalaf ar gyfer caffael safleoedd penodol i / fod y Grŵp Rheoli Asedau yn dirprwyo'r penderfyniadau ar gynigion ar gyfer caffael safleoedd penodol i'r:

Pennaeth Cyllid ac Eiddo mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Adran 151, y Swyddog Monitro a'r Aelod Arweiniol Eiddo a Chyllid, mewn cydweithrediad gyda'r Landlord Corfforaethol, yr Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd (yn cynnwys Cyngor Di-garbon Net) a'r Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau (yn cynnwys Cyngor Ecolegol Gadarnhaol), i drafod caffael tir i ddibenion dal a storio carbon a gwelliant ecolegol cyn belled ag nad yw'r tir dan sylw yn bodloni unrhyw rai o'r meini prawf y nodir eu bod yn anghymhwys.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

- 5.1 Fe fydd yr ymagwedd a amlinellir yn gwneud cyfraniad uniongyrchol at gyflawni datganiad Argyfwng Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol y Cyngor a oedd yn ymrwmo'r Cyngor i ddod yn Gyngor Di-garbon Net erbyn 2030, a'r Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol a fabwysiadwyd yn dilyn hynny, drwy gefnogi'r cynnydd yn nhunelledd y carbon a gaiff ei ddal a'i storio gan diroedd sy'n eiddo i'r Cyngor neu'n cael eu gweithredu gan y Cyngor yn y categorïau gyda'r cyfoeth uchaf o ran rhywogaethau.
- 5.2 Fe fydd yr ymagwedd a amlinellir yn cefnogi'r Cyngor i wneud ei gyfraniad at bolisi Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector cyhoeddus i fod yn garbon niwtral erbyn 2030, er mwyn i Gymru fodloni ei darged sydd wedi ei rwymo mewn cyfraith ar gyfer lleihau allyriadau i Sero Net erbyn 2050 ac mae'n cefnogi dyletswydd statudol y Cyngor o dan Adran 6 Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016 i "geisio cynnal a hybu bioamrywiaeth".

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

- 6.1 Mae costau cyfalaf yn cynnwys unrhyw gostau sy'n ymwneud â chaffael tir e.e. cost prynu ac unrhyw gostau sy'n ymwneud â throï'r tir yn goetir e.e. plannu coed ac ymyriadau i greu gwelliannau ecolegol e.e. creu cynefin, ffensio da byw. Fe geisir cael grantiau allanol lle bynnag fo hynny'n bosibl i ddarparu cymysgedd o ran cyllido ochr yn ochr â chyfalaf wedi ei ddyrannu i'r Rhaglen Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol bob blwyddyn fel rhan o'r broses o osod y gyllideb.
- 6.2 Mae costau referniw yn cynnwys ffioedd a thaliadau yn ymwneud â chaffael y tir na ellir ei gyfalafu a chostau yn ymwneud â rheoli'r ased wedi hynny. Ar gyfer creu coetir ar raddfa, yr ymagwedd a gaiff ei chymryd yw un yn ymwneud ag aildyfiant naturiol pryd bynnag fo'n bosibl. Ar gyfer creu coetir o fewn cymunedau yr ymagwedd a gaiff ei chymryd yw un yn ymwneud â'r 'goeden iawn, y lle iawn' i osgoi cynnal a chadw coed yn ddiangen neu fethiant.

Mae safleoedd a gaiff eu caffael yn debygol o gael eu hychwanegu at bortffolio asedau'r Gwasanaethau Cefn Gwlad a byddant yn cael eu hadolygu o safbwynt rheolaeth barhaus. Fe all costau referniw gael ei nodi ac fe geisir cael grant allanol i ychwanegu at gyllidebau rheoli ar draws yr holl safleoedd.

6.3 Mae'r effaith debygol ar feysydd gwasanaeth eraill fel a ganlyn:

- Asedau Strategol a Chyfreithiol – mewn perthynas â thrafodaethau caffael tir.
- Y Tîm Newid Hinsawdd – yn darparu swyddogaeth rheoli prosiect i asesu tiroedd a allai o bosibl gael eu caffael a chyflawni unrhyw weithgaredd o ran creu coetir a hybu cynefinoedd o ganlyniad.
- Y Gwasanaethau Cefn Gwlad – yn darparu cyngor arbenigol yn ymwneud â dal a storio carbon a chynlluniau gwelliant ecolegol; ymgymryd â rheoli gweithredol a chynnal a chadw.
- Y Gwasanaethau Democrataidd – i reoli proses hysbysiad o benderfyniad i alluogi ymwybyddiaeth ddigonol, rhag ofn fod Aelodau yn dymuno galw'r penderfyniad dirprwyedig gweithredol i mewn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1 Gweler Atodiad 2 am yr Asesiad o'r Effaith ar Les llawn.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Ymgynghorwyd yn eang yn ystod 2020 ar y Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol a'r targedau ynddi, gan gynnwys y gofyniad i gynyddu faint o garbon a gaiff ei ddal a'i storio, a chafodd ymateb cadarnhaol. Roedd hyn yn cynnwys 2 gyfnod o ymgysylltu cyhoeddus yn Ionawr/Chwefror a Tachwedd/Rhagfyr 2020 yn ogystal ag ymgysylltu gyda holl Grwpiau Ardal yr Aelodau, y Cabinet ac Aelodau Arweiniol. Cafodd y Strategaeth ei chyflwyno a'i mabwysiadu gan y Cyngor, yn dilyn pleidlais unfrydol, yn Chwefror 2021. Gweler [Cyngor Sir Ddinbych - Dydd Mawrth, 23 Chwefror 2021](#) i gael rhagor o wybodaeth.

8.2 Mae'r ymagwedd arfaethedig ar gyfer defnydd tir a chaffael tir i ddibenion amlwg dal a storio carbon a gwelliant ecolegol wedi ei datblygu ar y cyd gyda chefnogaeth swyddogion o'r: Tîm Asedau Strategol, Prasio ac Ystadau, y Gwasanaethau Cefn Gwlad, AHNE a'r Tîm Newid Hinsawdd. Mae'r grŵp swyddogion yn gefnogol i'r ymagwedd arfaethedig.

- 8.3 Adolygodd y Grŵp Rheoli Asedau bapur ar y cynllun dirprwyo arfaethedig ar 19 Gorffennaf 2021 a chymeradwyodd yr argymhelliad i gyflwyno'r cynllun. Roedd hyn yn cynnwys datganiad gan y Landlord Corfforaethol a oedd yn cefnogi'r argymhellion (Atodiad 7).
- 8.4 Adolygodd y Grŵp Buddsoddi Strategol bapur ar y cynllun dirprwyo arfaethedig ar 27 Gorffennaf 2021 a chymeradwyodd yr argymhelliad i gyflwyno'r cynllun, ond dim ond o ychydig. O dan argymhelliad y Swyddog Monitro cytunwyd i fynd â'r penderfyniad, o p'run ai i gyflwyno'r cynllun newydd hwn o benderfyniadau dirprwyedig ai peidio, i'r Cabinet.
- 8.5 Ymgymrwyd â gwaith ymgysylltu penodol gyda rhanddeiliaid amaethyddol Sir Dinbych ym mis Ionawr 2022, gan gynnwys gyda: Coleg Cambria – Llysfasi, Jones Peckover, Undeb Amaethwyr Cymru. Cafwyd sgysiau cadarnhaol gyda phawb a gymrodd ran yn y trafodaethau.
- 8.6 Mae'r Swyddog Monitro wedi cadarnhau fod y broses ddirprwyo a'r geiriad yn ddigonol.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

- 9.1 Mae'n amlwg fod defnydd a chaffael tir i ddibenion dal a storio carbon a gwelliant ecolegol yn ffurfio rhan allweddol o'r Rhaglen Darged Di-garbon Net a gytunwyd. Mae'n bwysig nodi y bydd dyraniad y gyllideb flynyddol yn parhau i fod yn destun adroddiadau i Fwrdd y Gyllideb ac yn y pen draw cymeradwyaeth gan y Cabinet a'r Cyngor ac y bydd angen i brosiectau unigol dros £1m barhau i gael cymeradwyaeth gan y Cabinet. Barn broffesiynol uwch swyddogion o fewn yr adran eiddo a'r rhaglen yw y bydd y cynigion hyn yn helpu i sicrhau safleoedd mewn dull cyflym ac effeithiol a helpu'r Cyngor i gyflawni'r targed 2030. Ar sail hynny caiff y cynigion eu cefnogi. Os nad ydynt yn cael eu cymeradwyo, yna dylai arfarniad gonest o allu'r Cyngor i fodloni'r targed y cytunwyd arno gael ei ddwyn ymlaen.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

- 10.1 Caiff risgiau perthnasol eu darparu yn Atodiad 6.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

- 11.1 Gweler Atodiad 8.